# AMSERLEN A CHANLLAWIAU CAM WRTH GAM AR GYFER CADW LLE 2025

Cymhwyster Llys yr Ynadon (MCQ)

cardiff.ac.uk/cy/professional-development

# Rota Dyletswydd

**Sut mae rhaglen MCQ (ac ymuno â'r Rota Dyletswydd) yn gweithio. Rydym yn cynnal sawl rownd o hyfforddiant ac asesiadau bob blwyddyn, ac mae modd ymuno â'r Rota Dyletswydd - ym mis Ebrill a mis Hydref.**

**Sut mae rhaglen MCQ yn gweithio**
Nid oes rhaid i chi gwblhau'r ddau asesiad MCQ yn yr un rownd, ond mae gennych rwydd hynt i wneud hynny. Fodd bynnag, ar ôl pasio un asesiad, rhaid i chi gwblhau'r ail o fewn 12 mis.


**Sut mae'r Rota Dyletswydd yn gweithio**
Pan fyddwch wedi cwblhau'r PSRAS a'r MCQ, cewch wneud cais i Gymdeithas y Gyfraith am aelodaeth CLAS*.


Pan fyddwch wedi ymuno â CLAS, cewch wneud cais i ddod yn aelod o gynllun Rota Dyletswydd (gan ddefnyddio ffurflen CRM 12).

Cewch wneud hyn unrhyw bryd ond dim ond ar ddwy adeg benodol y gellir ychwanegu cyfreithiwr at rota'r cyfreithwyr ar ddyletswydd bob blwyddyn.

Cynhelir pob rota am chwe mis: y cyntaf o fis Ebrill i fis Hydref, a'r ail o fis Hydref i fis Ebrill. Y dyddiadau cau ar gyfer y rotâu fel arfer yw dechrau mis Ionawr (ar gyfer dechrau ym mis Ebrill) a dechrau mis Gorffennaf (ar gyfer dechrau ym mis Hydref).

*Bydd yn cymryd tua phedair wythnos i'ch cais gael ei brosesu.




# Sut i gadw eich lle

**Gallwch ddewis prynu'ch MCQ mewn dwy ffordd. Rydym wedi creu pecynnau i'ch helpu i ennill achrediad. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau a chyrsiau hyfforddi.**

Os yw'n well gennych, gallwch brynu cyrsiau hyfforddi ac asesiadau ar sail talu wrth fynd. Peidiwch ag anghofio, pan fyddwch chi'n prynu un o'n pecynnau, rydych chi'n arbed arian yn erbyn cost prynu elfennau yn unigol.

## Pecynnau

Mae ein pecynnau wedi'u cynllunio i'ch helpu i ennill achrediad MCQ.

Mae pob pecyn yn cynnwys y ddau asesiad y mae angen i chi eu cwblhau, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi amrywiol.

**Sut i brynu pecyn**

1. Ewch i'n gwefan a dewis pa becyn yr hoffech ei brynu.

2. Cliciwch ar y ddolen i ychwanegu'r pecyn at eich basged siopa. Bydd hyn yn rhoi taleb i chi sy'n cynnwys cost y gwahanol elfennau yn eich pecyn.

3. Crëwch gyfrif gyda ni (neu fewngofnodi i'ch cyfrif presennol), a thalu am eich taleb. Y dull hawsaf a chyflymaf yw talu â cherdyn credyd. Os byddai'n well gennych dalu drwy anfoneb, byddwn yn gofyn am gopi o'ch archeb brynu. Ni chadarnheir eich archeb nes y derbynnir hyn ac ni chewch symud ymlaen i gam 4.

4. Unwaith y bydd eich archeb wedi'i chadarnhau, byddwch yn gallu mewngofnodi i'ch cyfrif ar unrhyw adeg i archebu a rheoli'r holl gyrsiau ac asesiadau o'ch dewis, yn ogystal â dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol.

## Talu wrth fynd

Os yw'n well gennych, gallwch brynu cyrsiau ac asesiadau ar wahân.

Efallai eich bod eisoes wedi cwblhau rhai elfennau o'r MCQ, neu fod angen i chi ailsefyll asesiad penodol.

Rydym yn cynnig pob elfen o'r MCQ ar sail talu wrth fynd (cofiwch na chewch ostyngiad os ydych yn prynu elfennau ar wahân).

**Sut i brynu eitem talu wrth fynd**

1. Ewch i'n gwefan a dewis pa gwrs neu asesiad yr hoffech ei brynu.

2. Cliciwch ar y ddolen i ychwanegu'r eitem i'ch basged siopa.

3. Crëwch gyfrif gyda ni (neu fewngofnodi i'ch cyfrif presennol), a thalu am eich taleb. Y dull hawsaf a chyflymaf yw talu â cherdyn credyd. Os byddai'n well gennych dalu drwy anfoneb, byddwn yn gofyn am gopi o'ch archeb brynu. Ni chadarnheir eich archeb nes y derbynnir hyn ac ni chewch symud ymlaen i gam 4.

4. Unwaith y bydd eich archeb wedi'i chadarnhau, byddwch yn gallu mewngofnodi i'ch cyfrif ar unrhyw adeg i archebu a rheoli'r holl gyrsiau ac asesiadau o'ch dewis, yn ogystal â dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol.

## Pecynnau

### Hollgynhwysol

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y ddau asesiad sy'n ofynnol i basio'r MCQ, yn ogystal â dau gwrs hyfforddi cysylltiedig a gynlluniwyd i'ch helpu i basio'r asesiadau:**

Portffolio
Cyfweliad ac Asesiad Eiriolaeth (IAA)
Cwrs hyfforddiant portffolio
Cwrs hyfforddiant IAA

### Pob prawf a chwrs hyfforddi IAA

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y ddau asesiad sy'n ofynnol i basio'r MCQ, yn ogystal â chwrs hyfforddi IAA, a gynlluniwyd i'ch helpu i basio'r asesiad hwn:**

Portffolio
Cyfweliad ac Asesiad Eiriolaeth (IAA)
Cwrs hyfforddiant IAA

# Amserlen

**Dyma'r dyddiadau a gynlluniwyd ar gyfer asesiadau a chyrsiau yn 2025. Sylwer, amserlen ddangosol yw hon a gall newid. Am y wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch â ni drwy ebostio.**

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno Portffolio | 7fed | 25ain | | 30ain | 1af | 24ain | | | 12fed | | 7fed | |
| Cwrs hyfforddiant portffolio | | 27ain | | | | | 17eg | | | | 13eg | |
| IAA ar-lein | 29ain | 3ydd | 27ain | 1af | 29ain | 3ydd | | 4ydd<br>6ed | | 9fed<br>13eg | 27ain | 2il |
| Cwrs hyfforddiant IAA | 13eg | | 6ed | | 19eg | | 31ain | | 23ain | | 20fed | |

# UNRHYW GWESTIYNAU?

**cardiff.ac.uk/cy/professional-development**

## Sut i gadw lle

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut i drefnu, cysylltwch â:

+44 (0)29 2087 5274
train@caerdydd.ac.uk

## Cwestiynau am yr MCQ

Os oes gennych chi gwestiynau am y cynllun, cysylltwch â:

+44 (0)29 2087 6948
law-PDU@caerdydd.ac.uk